# Egwyddorion lefel uchel ar gyfer arferion da o ran ymgyngoriadau a rhagnodi o bell

Darperir y wybodaeth hon ar gyfer pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n gyfrifol am ragnodi. Mae'n nodi'r egwyddorion lefel uchel a rennir ar gyfer arferion da y mae'r claf yn eu disgwyl gan bawb sy'n ymgynghori a/neu'n rhagnodi o bell.

Ategir yr egwyddorion gan safonau a chanllawiau presennol gan reoleiddwyr gweithwyr proffesiynol a rheoleiddwyr systemau. Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol barhau i ddilyn arweiniad gan gyrff rheoleiddio ac ystyried canllawiau clinigol wrth wneud penderfyniadau.

Nid yw'r wybodaeth hon yn ganllaw clinigol nac yn ganllaw newydd gan gyrff rheoleiddio.

## Mesurau diogelu ar gyfer cleifion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd o bell

Gall ymgyngoriadau a rhagnodi o bell a ddarperir ar-lein, drwy gyswllt fideo neu dros y ffôn fod o fudd i gleifion, arbed adnoddau a helpu i ateb galw'r cyhoedd am fynediad mwy cyfleus at ofal iechyd.

Fodd bynnag, mae risgiau posibl i ddiogelwch cleifion, yn enwedig lle nad yw gwasanaethau'n gysylltiedig â meddyg teulu GIG neu ddarparwr gofal iechyd rheolaidd claf, a lle gall fod mynediad cyfyngedig at gofnodion meddygol claf. Mae'r problemau'n cynnwys ymdrechion cynyddol i gael gafael ar feddyginiaethau a all beri niwed difrifol a'r angen i sicrhau bod pobl â chyflyrau hirdymor yn parhau i gael eu monitro'n ddiogel. Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau o bell a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol y maent yn gweithio gyda nhw fod yn ymwybodol o'r risgiau hyn a deall eu cyfrifoldebau am ddiogelu cleifion.

Gall cleifion ddisgwyl cael mesurau diogelu effeithiol ar waith i'w diogelu pan fyddant yn cael cyngor a thriniaeth o bell. Mae mesurau diogelu yn angenrheidiol p'un a yw'r ymgynghoriad yn rhan o gydberthynas triniaeth barhaus neu'n gysylltiad untro rhwng claf a gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

# Egwyddorion allweddol

Rydym yn disgwyl i weithwyr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig yn y DU ddilyn deg egwyddor lefel uchel allweddol wrth ddarparu ymgyngoriadau a rhagnodi o bell i gleifion yn y DU neu dramor.

1. Sicrhau mai diogelwch cleifion yw'r brif flaenoriaeth a mynegi pryderon os nad oes gan y gwasanaeth neu'r system lle maent yn gweithio fesurau diogelu cleifion digonol, gan gynnwys gwiriadau hunaniaeth a dilysu priodol. [1]

2. Deall sut i adnabod cleifion sy'n agored i niwed a chymryd camau priodol i'w diogelu.

3. Dweud eu henw, eu rôl a'u manylion cofrestru proffesiynol (os yw ar-lein) wrth gleifion, dechrau sgwrs a gwneud yn siŵr bod y claf yn deall sut y bydd yr ymgynghoriad o bell yn gweithio.

4. Esbonio'r canlynol:
    a. Dim ond os yw'n ddiogel gwneud hynny y gallant ragnodi.
    b. Os nad yw'n ddiogel, os nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth am iechyd y claf neu os nad yw gofal o bell yn addas i ddiwallu ei anghenion.
    c. Gall fod yn anniogel os na rennir gwybodaeth berthnasol â darparwyr gofal iechyd eraill sy'n gysylltiedig â gofal y claf.
    d. Os na allant ragnodi gan ei fod yn anniogel, byddant yn cyfeirio'r claf at wasanaethau priodol eraill.

5. Cael cydsyniad ar sail gwybodaeth a dilyn y gyfraith galluedd meddyliol a'r codau ymarfer perthnasol.

6. Cynnal asesiad clinigol digonol a chael gafael ar gofnodion meddygol neu gadarnhau gwybodaeth bwysig drwy archwilio neu brofi yn ôl yr angen.

7. Rhoi gwybodaeth i gleifion am bob opsiwn sydd ar gael iddynt, gan gynnwys gwrthod triniaeth, mewn ffordd y gallant ei deall.

---

- [1] Mae NHS Digital wedi cyhoeddi Y Safon Gwirio a Dilysu Hunaniaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Digidol (2018). Ar gyfer canllawiau ar ddarparu gwasanaethau iechyd rhywiol diogel a phriodol ar-lein ac o bell, cyfeiriwch at  ddogfen y Gyfadran Gofal Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlu (FSRH) a Chymdeithas Iechyd Rhywiol a HIV Prydain (BASHH) Standards for Online and Remote Providers of Sexual and Reproductive Health Services.

8. Gwneud trefniadau priodol ar gyfer ôl-ofal ac, oni bai bod y claf yn gwrthwynebu, rannu'r holl wybodaeth berthnasol â chydweithwyr a darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill sy'n gysylltiedig â'i ofal er mwyn cefnogi'r gwaith o barhau i'w fonitro a'i drin.

9. Cadw nodiadau sy'n esbonio ac yn cyfiawnhau'n llawn y penderfyniadau y maent yn eu gwneud.

10. Bod yn ymwybodol o'r hyfforddiant, y cymorth a'r canllawiau perthnasol diweddaraf ar gyfer darparu gofal iechyd o bell.

## Gweithio mewn systemau diogel

Bydd gan gyflogwyr cyfrifol a darparwyr gwasanaethau o bell systemau ar waith i gadarnhau hunaniaeth cleifion a nodi patrymau ymddygiad a all nodi pryderon difrifol fel bod modd cymryd camau priodol i ddiogelu cleifion. Gall cleifion sy'n agored iawn i niwed gynnwys y rhai hynny sydd mewn perygl o hunan-niweidio, camddefnyddio sylweddau neu gyffuriau, pobl â chyflyrau hirdymor a phlant sy'n ceisio defnyddio gwasanaethau ar gyfer oedolion.

Disgwylir i weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n gyfrifol am arwain tîm neu wasanaeth sy'n cynnig gofal o bell wneud yn siŵr bod aelodau o staff yn deall eu rolau, eu cyfrifoldebau personol a chyfunol am gleifion unigol, ac ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir gan y tîm neu'r gwasanaeth. Mae ganddynt gyfrifoldeb am gyfrannu at sefydlu a chynnal systemau effeithiol i nodi a rheoli risgiau, ac am weithredu'n gyflym pan all cleifion fod mewn perygl o gael niwed.

## Cydnabod cyfyngiadau rhagnodi o bell

Mae'n bwysig i weithwyr gofal iechyd proffesiynol a chyflogwyr ystyried cyfyngiadau gwasanaethau o bell pan fyddant yn penderfynu ar gwmpas ymarfer ac amrywiaeth y feddyginiaeth a ragnodir. Nid yw rhai categorïau o feddyginiaethau yn addas i'w rhagnodi o bell oni bai bod mesurau diogelu penodol ar waith. Mae'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol wedi llunio canllawiau sy'n esbonio na all fferyllfeydd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban gyflenwi'r categorïau hyn o feddyginiaethau heb gael sicrwydd bod y mesurau diogelu hyn ar waith. Mae Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon yn darparu safonau a chanllaw ynghylch gwasanaethau fferyllol ar-lein i fferyllfeydd yng Ngogledd Iwerddon.

## Cynnig gwasanaethau o bell i gleifion dramor

Os yw gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y DU yn ystyried gweithio i ddarparwyr gwasanaethau mewn gwledydd eraill, mae'n bwysig eu bod yn ymwybodol efallai na fydd gweithdrefnau lleol sefydledig i reoleiddio systemau yn effeithiol ac y gall hyn

effeithio ar ddiogelwch cleifion. Cyn darparu gwasanaethau o bell i gleifion dramor, dylai'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol gadarnhau a oes angen iddo gofrestru â chyrff rheoleiddio yn y wlad ble mae'n gweithio, ble mae'r claf yn byw a ble bydd unrhyw feddyginiaethau y mae'n eu rhagnodi yn cael eu dosbarthu. Mae angen iddo hefyd gadarnhau a oes ganddo drefniant ar waith i indemnio neu yswirio ei ymarfer ym mhob gwlad berthnasol.

Wrth ragnodi i glaf dramor, disgwylir i weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y DU ystyried sut byddan nhw neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol lleol yn monitro cyflwr y claf. Mae angen i'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ystyried unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol ar ragnodi neu gyflenwi meddyginiaethau penodol, ac unrhyw wahaniaethau o ran trwyddedu cynnyrch neu ei ddefnydd clinigol derbyniol yn y gyrchwlad. Dylai ddilyn gofynion cyfreithiol y DU a thramor a'r canllawiau perthnasol ar fewnforio ac allforio at ddibenion dosbarthu'n ddiogel, gan gynnwys canllawiau'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd.

# Gwybodaeth bellach a chanllawiau

Darperir dolenni i wybodaeth a chanllawiau perthnasol sydd wedi'u cyhoeddi gan reoleiddwyr gweithwyr proffesiynol a rheoleiddwyr systemau, colegau a chyfadrannau brenhinol, cyrff proffesiynol a rhanddeiliaid eraill isod.

## Rheoleiddwyr gweithwyr proffesiynol

Mae'r sefydliadau canlynol yn rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y DU.

Cyngor Deintyddol Cyffredinol

- *Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol (2013)*

Y Cyngor Meddygol Cyffredinol

- *Arfer meddygol da (2013)*
- *Arfer da wrth bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau a dyfeisiau (2013)*
- *Adnoddau'r hwb moesegol ar ymgyngoriadau o bell*
- *Adnoddau'r hwb moesegol ar ddiogelu oedolion*
  *Diogelu plant a phobl ifanc: Cyfrifoldebau pob meddyg (2018)*

Y Cyngor Optegol Cyffredinol

- *Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Dosbarthu (2016)*
- *Safonau ar gyfer Busnesau Optegol (o 1 Hydref 2019)*

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol

- *Canllawiau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n darparu gwasanaethau fferyllol o bell, gan gynnwys ar y rhyngrwyd* (2019)
- *Safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol (2017)*

Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal

- *Safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg*

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

- *Y cod proffesiynol*
- *Safonau ar gyfer rhagnodwyr*
- *Cwestiynau cyffredin am ragnodi o bell: beth fydd angen i mi ei ystyried fel nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio pan ragnodir meddyginiaethau o bell?*

Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon

- *Safonau a chanllawiau ar gyfer fferyllwyr sy'n rhagnodi (2013)*
- *Safonau a chanllawiau ynghylch gwasanaethau fferyllol ar-lein (2013)* (mae'r ddogfen hon wrthi'n cael ei hadolygu)

**Rheoleiddwyr systemau**

Mae'r sefydliadau canlynol yn rheoleiddio gwasanaethau yn y DU, gan gynnwys ar-lein.

- Lloegr – Comisiwn Ansawdd Gofal
- Cymru – Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Yr Alban – Gwella Gofal Iechyd yr Alban
- Gogledd Iwerddon – Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd Gogledd Iwerddon

**Rheoleiddwyr eraill**

Yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd yw'r rheoleiddiwr ar gyfer meddyginiaethau, dyfeisiau meddygol a chyfansoddion gwaed i'w trallwyso yn y DU.

**Colegau  a Chyfadrannau Brenhinol**

- Academi Colegau Meddygol Brenhinol – www.aomrc.org.uk
- Y Gyfadran Meddygaeth Poen

    - *Opioids Aware: A resource for patients and healthcare professionals to support prescribing of opioid medicines for pain* a gyhoeddwyd ar y cyd â Public Health (England)

- Y Gyfadran Gofal Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlu (FSRH)
    - *Standards for Online and Remote Providers of Sexual and Reproductive Health Services (2019)* a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Gyfadran Gofal Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlu (FSRH) a Chymdeithas Iechyd Rhywiol a HIV Prydain (BASHH)

- Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
    - *Online consultations in general practice: the questions to ask (2018)*

Sefydliadau eraill

Cymdeithas Feddygol Prydain

- *Choosing an online consultation system (2018)*

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

- *Hawliau sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau awtomataidd, gan gynnwys proffilio gwybodaeth*

Y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol

- *Canllawiau ar dechnoleg llais ddiogel*

NHS Digital

- *Dulliau Rheoli Risgiau Clinigol: eu Cymhwyso wrth Roi Systemau TG Iechyd ar Waith a'u Defnyddio (2018)*

- *Y Safon Gwirio a Dilysu Hunaniaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Digidol (2018)*

Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol

- *Polisi ar gyfer gwasanaethau fferyllol ar-lein (2019)*

- *Fframwaith cymwyseddau ar gyfer pob rhagnodwr*

- *Diogelu oedolion sy'n agored i niwed*

- *Diogelu plant a phobl ifanc*

**Gwybodaeth bellach am alluedd meddyliol**

- *Cod ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol (Cymru a Lloegr) 2005*
- *Deddf Oedolion ag Analluogrwydd (yr Alban) 2000*
- *Deddf Galluedd Meddyliol (Gogledd Iwerddon) (2016)* (heb ei deddfu eto) Mae cyfraith gyffredin yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon ar hyn o bryd.

**Gwybodaeth bellach am ddiogelu**

Lloegr

- Adnoddau Grŵp llywio gwaith diogelu NHS England

Cymru

- *Diogelu: canllawiau i sefydliadau* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru

Yr Alban

- *Child protection guidance for Health Professionals (Scotland) (2013)* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth yr Alban
- National Guidance for Child Protection in Scotland (2014)
- *Code of Practice on Adult Support and Protection*

Gogledd Iwerddon

- *Adult safeguarding – prevention and protection in partnership (2015)* a gyhoeddwyd ar y cyd gan yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd ac Adran Cyfiawnder Gogledd Iwerddon.